



Mae gennyf ddyfarniad ond nid yw'r diffynnydd wedi talu

Beth ddylwn ei wneud?

Sut allaf gael fy arian ar ôl dyfarniad?

Os yw llys wedi penderfynu bod yn rhaid i rywun dalu swm o arian i chi (rydych wedi 'cael dyfarniad yn erbyn y diffynnydd'), ac nid ydych wedi cael taliad, gall y daflen hon eich helpu i benderfynu beth i'w wneud nesaf.

Ni fydd y llys yn gorfodi'r dyfarniad oni bai eich bod yn gofyn iddo wneud hynny.

Gallwch geisio cael eich arian (a elwir yn 'gorfodi eich dyfarniad') drwy ofyn i'r llys am:

- warant reolaeth;
- gorchymyn atafaelu enillion;
- gorchymyn dyled trydydd parti; neu
- orchymyn arwystlo.

Mae'r daflen hon yn rhoi disgrifiad byr o bob un o'r dulliau gorfodi hyn.

Os yw'r swm sy'n ddyledus i chi'r un faint neu'n fwy na £5,000, fe allwch chi hefyd wneud cais i wneud y diffynnydd yn fethdalwr. Fodd bynnag, gall hyn fod yn ddrud. Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â gweithdrefnau methdaliad ar gael yn www.gov.uk

Cofiwch, nid yw'r llys yn gallu gwarantu y cewch chi'ch arian yn ôl, a bydd yn rhaid i chi dalu ffi am unrhyw gam a gymerwch chi. Er y bydd y llys yn ychwanegu'r ffi at yr arian sydd eisoes yn ddyledus gan y diffynnydd, nid yw'r llys yn gallu dychwelyd unrhyw swm yr ydych wedi'i dalu os na fyddwch yn cael eich arian gan y diffynnydd, neu os yw'r llys yn gwrthod eich cais.

Fodd bynnag, fe allai eich sefyllfa ariannol olygu nad oes rhaid i chi dalu ffi. Gall llyfryn '**EX160A - Sut i wneud cais am gymorth gyda ffioedd**' roi rhagor o wybodaeth i chi am hyn.

Gall staff y llys roi copi o hwn i chi. Hefyd, mae ar gael ar-lein yn hmctsformfinder.justice.gov.uk. Bydd rhaid i chi wneud cais ar wahân ar gyfer pob ffi y byddech fel arall yn gorfod talu.

Cyn i chi benderfynu sut i fwrw ymlaen, dylech ystyried:

- ydych chi'n debygol o gael eich arian a ffi'r llys gan y diffynnydd ai peidio;
- ydy'r diffynnydd mewn dyled i bobl eraill neu oes ganddo ddyfarniadau llys eraill yn ei erbyn;
- ydy'r diffynnydd yn berchen ar unrhyw nwyddau neu asedau y gellir eu cymryd a'u gwerthu mewn arwerthiant;
- ydy'r diffynnydd yn gweithio;
- oes gan y diffynnydd enillion eraill, megis incwm o fuddsoddiadau;
- oes gan y diffynnydd gyfrif banc, cymdeithas adeiladu neu gyfrif arall;
- ydy'r diffynnydd yn berchen ar eiddo (tŷ); neu
- oes ar rywun arall arian i'r diffynnydd.

Sut rwyf yn canfod a oes gan y diffynnydd unrhyw ddyfarniadau eraill?

Gallwch chwilio drwy'r Gofrestr Dyfarniadau, Gorchmynion a Dirwyon i weld a oes gan y diffynnydd unrhyw ddyfarniadau neu ddirwyon blaenorol neu rai heb eu talu. Cedwir dyfarniadau ar y gofrestr am chwe blynedd, dirwyon am bum mlynedd. Rhaid i chi ofyn i'r Cofrestrydd wneud chwiliad.

Bydd yn rhaid i chi dalu ffi am bob enw rydych chi am chwilio amdano.

Gallwch gysylltu â'r Cofrestrydd neu wneud cais i chwilio ar-lein yn www.trustonline.org.uk neu drwy ysgrifennu at:

Registry Trust Ltd,
153 - 157 Cleveland Street,
Llundain, W1T 6QW
Ffôn 020 7380 0133

Gwarantau Rheolaeth

Mae gwarant reolaeth yn rhoi awdurdod i asiant gorfodi y llys i fynd â nwyddau o gartref neu fusnes y diffynnydd. Bydd asiant gorfodi naill ai'n ceisio:

- casglu'r arian sy'n ddyledus i chi; neu
- mynd â nwyddau i'w gwerthu mewn arwerthiant.

Allwch chi ddim gofyn i'r Llys Sirol godi gwarant os yw'r swm rydych am i'r asiant gorfodi ei gasglu'n fwy na £5,000, oni bai eich bod yn gorfodi cytundeb dan Ddeddf Credyd Defnyddwyr 1974. (Y rheswm dros hyn yw mai dim ond yn y Llys Sirol y gellir gorfodi cytundebau rheoledig.) Ond fe allwch ofyn i asiant gorfodi (drwy'r Uchel Lys) geisio casglu'r arian sy'n ddyledus i chi neu fynd â nwyddau.

Mae trefn yr Uchel Lys yn wahanol i'r Llysoedd Sirol ac yn gallu bod yn gymhleth ac yn fwy costus. Mae'n bosibl yr hoffech geisio am gyngor gan gyfreithiwr, canolfan gyfraith neu ganolfan cyngor ar bopeth cyn dechrau'r broses hon. Mae rhai canolfannau gwrandawiadau y Llysoedd Sirol hefyd yn gofrestrfeydd dosbarth i'r Uchel Lys. Gall y staff yno neu yn yr Uchel Lys yn Llundain ddweud rhagor wrthy'ch am orfodaeth Uchel Lys.

Os cychwynasoch chi'ch hawliad drwy ddefnyddio'r drefn Money Claim Online cewch godi cais am warant reolaeth ar-lein. Ewch i www.moneyclaim.gov.uk i gael rhagor o wybodaeth.

Gallwch ofyn i'r asiant gorfodi o'r Llys Teulu i geisio cael unrhyw swm o arian yn ôl. Os yw'r dyfarniad yr ydych yn ceisio ei orfodi yn y Llys Teulu, dylech godi'r gwarant yn y Llys Teulu.

Dydy hi ddim yn bosibl bob tro i asiant gorfodi fynd â nwyddau'r diffynnydd a'u gwerthu. Er enghraifft, chân nhw ddim mynd ag eitemau hanfodol y cartref neu arfau crefftwr neu nwyddau sydd dan gytundeb hur bwrcas neu rent.

Ni fydd yr asiant gorfodi yn mynd â nwyddau'r diffynnydd os nad ydyn nhw'n werth digon i dalu'r warant ar ôl tynnu costau mynd â'r nwyddau a'u gwerthu. Yn aml iawn, dim ond cyfran fach o'u gwerth gwreiddiol a geir wrth werthu nwyddau mewn arwerthiant. Efallai hefyd bod nwyddau'r diffynnydd eisoes wedi'u cymryd gan asiant gorfodi sy'n gweithredu dan warant arall.

I gael rhagor o wybodaeth am warant, darllenwch y daflen a elwir yn '**EX322 - Sut mae gofyn am warant reolaeth?**' sydd ar gael gan unrhyw ganolfan wrandawiadau Llys Sirol neu Lys Teulu, neu ar-lein yn hmctsformfinder.justice.gov.uk

Gorchymyn atafaelu enillion

Anfonir gorchymyn atafaelu enillion at gyflogwr y diffynnydd. Mae'n dweud wrth y cyflogwr am dynnu swm o gyflog y diffynnydd bob diwrnod tâl a'i anfon i'r swyddfa gasglu. Yna, anfonir yr arian atoch chi.

Rhaid i'r diffynnydd fod yn gyflogedig gan rywun cyn y gallwch gychwyn gorchymyn atafaelu enillion. Does dim modd gwneud gorchymyn os yw'r diffynnydd yn ddi-waith neu'n hunan-gyflogedig. Hefyd, efallai na fydd y llys yn gallu gwneud gorchymyn, neu efallai y bydd gorchymyn i'r diffynnydd dalu'r ddyled fesul rhandaliadau bach, os yw ei gostau byw yn fwy na'r swm y mae'n ei ennill.

I gael rhagor o wybodaeth am orchymyn atafaelu enillion, darllenwch y daflen a elwir yn **'EX323 - Sut mae gofyn am orchymyn atafaelu enillion?'** sydd ar gael gan unrhyw ganolfan wrandawiadau Llys Sirol neu Lys Teulu, neu ar-lein yn hmctsformfinder.justice.gov.uk

Gorchymyn dyled trydydd parti

Fel arfer, gwneir gorchymyn dyled trydydd parti i rwystro'r diffynnydd rhag tynnu arian o'i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu. Bydd yr arian sy'n ddyledus i chi'n cael ei dalu i chi o'r cyfrif. Hefyd, gellir anfon gorchymyn dyled trydydd parti at unrhyw un sydd mewn dyled ariannol i'r diffynnydd.

Os oes gan y diffynnydd gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu, bydd y banc neu'r gymdeithas adeiladu yn rhewi'r cyfrif pan fydd yn cael yr orchymyn gan y llys. Os yw'r cyfrif mewn gorddrafft ar y diwrnod y mae'r banc neu'r gymdeithas adeiladu'n derbyn eich gorchymyn, allwch chi ddim cael eich talu o'r cyfrif hwnnw. Bydd y diffynnydd yn gwybod am y gorchymyn ac efallai y bydd yn rhoi'r gorau i dalu arian i mewn i'r cyfrif.

I gael rhagor o wybodaeth am orchymyn dyled trydydd parti, darllenwch y daflen a elwir yn **'EX325 - Gorchymynion dyled trydydd parti a gorchymyn arwystlo – sut mae gofyn am orchymyn?'** sydd ar gael gan unrhyw ganolfan wrandawiadau Llys Sirol neu Lys Teulu neu ar-lein yn hmctsformfinder.justice.gov.uk

Gorchymyn arwystlo

Mae gorchymyn arwystlo'n atal y diffynnydd rhag gwerthu ei h/asedau (megis eiddo, tir neu fuddsoddiadau) heb dalu'r hyn sy'n ddyledus i chi.

Ni chewch chi eich arian nes bydd y diffynnydd yn gwerthu ei asedau. Dan rai amgylchiadau, efallai y byddwch yn gallu gofyn i'r llys am orchymyn i'w gorfodi i werthu eu hasedau

Mae'r daflen a elwir yn **'EX325 - Gorchymyn dyled trydydd parti a gorchymynion arwystlo – sut mae gwneud cais am orchymyn?'** yn esbonio rhagor am y drefn hon.

Mae ar gael gan unrhyw ganolfan wrandawiadau Llys Sirol neu Lys Teulu, neu ewch ar-lein yn hmctsformfinder.justice.gov.uk

Mae gorchymyn dyled trydydd parti neu orchymyn arwystlo'n gallu bod yn gymhleth. Fe ddylech gael help a chynghor gan gyfreithiwr neu gan eich canolfan cyngor ar bopeth leol.

Pa drefn y dylwn ei dewis?

Fel y gwelwch, mae pob ffordd o orfodi eich dyfarniad wedi'i bwriadu i fynd i'r afael ag agwedd wahanol ar asedau'r diffynnydd. Sef:

- y nwyddau y mae'n berchen arnyn nhw (gwarant reoli);
- cyflog wythnosol neu fisol (gorchymyn atafaelu enillion);
- cynilion (gorchymyn dyled trydydd parti); neu
- asedau (gorchymyn arwystlo).

Dewiswch yr un sydd fwyaf tebygol o gael eich arian yn ôl i chi. Er enghraifft, os yw'r diffynnydd yn ddi-waith neu'n hunan-gyflogedig, gwastraff amser ac arian fyddai gofyn am orchymyn atafaelu enillion. Ond os oes gan y diffynnydd arian mewn cyfrif banc, efallai y byddai gorchymyn dyled trydydd parti'n addas.

Beth alla'i wneud os nad oes gen i ddim gwybodaeth am sefyllfa ariannol y diffynnydd?

Os yw'r diffynnydd wedi addef yr hawliad ac wedi cynnig talu cyn gwnaethpwyd y dyfarniad, fe fyddwch eisoes yn gwybod rhywbeth am eu sefyllfa ariannol. Ond os mai dim ond ychydig y gwyddoch chi am sefyllfa ariannol y diffynnydd, efallai y gallwch gael gwybod rhagor drwy ofyn am **'EX324 - Sut mae gwneud cais am orchymyn? - Gorchymyn i gael gwybodaeth gan rywun sydd mewn dyled i chi'**.

Nid ffordd o orfodi eich dyfarniad yw gorchymyn i gael gwybodaeth. Ffordd o gael gwybod am incwm, asedau a gwariant y diffynnydd yw hyn. Fe all y wybodaeth hon eich helpu chi i benderfynu:

- a all y diffynnydd dalu'r ddyled i chi; a
- pha ddull sydd fwyaf tebygol o sicrhau eich bod yn cael eich arian.

Bydd rhaid i chi dalu ffi am orchymyn i gael gwybodaeth. Er y bydd y llys yn ychwanegu'r ffi at yr arian sydd eisoes yn ddyledus gan y diffynnydd, nid yw'r llys yn gallu dychwelyd unrhyw arian yr ydych chi wedi'i dalu os nad yw eich dull gorfodi yn llwyddo.

I gael rhagor o wybodaeth am orchymyn i gael gwybodaeth, gofynnwch am y daflen **'EX324 - Sut mae gwneud cais am orchymyn? - Gorchymyn i gael gwybodaeth gan rywun sydd mewn dyled i chi'**. 'Mae ar gael gan unrhyw ganolfan wrandawiadau Llys Sirol neu Lys Teulu, neu ar-lein yn hmctsformfinder.justice.gov.uk

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y gweithdrefnau hyn i gyd gan y staff mewn unrhyw ganolfan wrandawiadau Llys Sirol neu Lys Teulu, neu ar-lein yn hmctsformfinder.justice.gov.uk. Fodd bynnag, ni fydd staff y llys yn gallu dweud wrthy ch pa ddull gorfodi i'w ddewis. Chi sydd i benderfynu pa un ydy'r mwyaf tebygol o sicrhau eich bod yn cael eich arian. Efallai y gallwch gael cyngor cyfreithiol am ddim gan ganolfan y gyfraith, Canolfan Cyngor ar Bopeth neu ganolfan cyngor i ddefnyddwyr.

Cofiwch, dim ond syniad cyffredinol o beth sy'n debygol o ddigwydd a gewch chi yn y daflen hon. Does dim modd iddi esbonio popeth am reolau a gweithdrefnau'r llys.